**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb 2022/23 | Sefyllfa 2022/23 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 18,257 | 18,771 | 514 | 0 | 514 | (760) |
| Gofal Cartref | 7,978 | 7,975 | (3) | 0 | (3) | (266) |
| Eraill | 401 | 1,382 | 981 | 0 | 981 | 1,292 |
| | 26,636 | 28,128 | 1,492 | 0 | 1,492 | 266 |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,794 | 2,387 | (407) | 0 | (407) | (471) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 24,075 | 25,265 | 1,190 | 0 | 1,190 | 724 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 4,171 | 4,364 | 193 | 0 | 193 | 224 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 3,839 | 3,655 | (184) | 0 | (184) | (54) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **61,515** | **63,799** | **2,284** | **0** | **2,284** | **689** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 225 | 561 | 336 | 0 | 336 | 53 |
| Gofal Dydd | (16) | (202) | (186) | 0 | (186) | (180) |
| Gofal Cymunedol | 384 | 2,212 | 1,828 | 0 | 1,828 | 1,780 |
| Eraill | 13 | 33 | 20 | 0 | 20 | 11 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **606** | **2,604** | **1,998** | **0** | **1,998** | **1,664** |

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb 2022/23 | Sefyllfa 2022/23 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,560 | 3,683 | 123 | 0 | 123 | 286 |
| Defnydd o Gronfeydd wrth gefn | 0 | (520) | (520) | 0 | (520) | (397) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23 | 0 | 0 | 0 | (3,785) | (3,785) | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **3,560** | **3,163** | **(397)** | **(3,785)** | **(4,182)** | **(111)** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **65,681** | **69,566** | **3,885** | **(3,785)** | **100** | **2,242** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - Yn 'Eraill' pwysau ar lety cefnogol a thaliadau uniongyrchol. Ym mhreswyl a nyrsio costau ffioedd uwch gan ddarparwyr preifat wedi arwain at orwariant erbyn diwedd y flwyddyn. Pwysau cynyddol ar ofal cartref ond ei fod o fewn y gyllideb. Yn ychwanegol i hyn trafferthion gwireddu arbedion yn cyfrannu at y darlun.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - lleihad yn y galw am ofal cartref ond pwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - nifer o achosion newydd costus llety cefnogol a phwysau ar breswyl a nyrsio a thaliadau uniongyrchol ond sydd yn cael ei leihau gan lai o gynlluniau cefnogol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - y pwysau ar y gyllideb breswyl a nyrsio a llety cefnogol yn parhau.

**Gwasanaethau Darparu** - defnydd cynyddol o staff asiantaeth ac felly yn gynwysiedig yn y gorwariant a adroddir. Staffio uwchlaw lefel y gyllideb a diffyg incwm yn faterion yng ngofal cymunedol, tra bod prisiau uwch trydan yn cyfrannu £133k at orwariant cartrefi preswyl. Bu i effaith Covid amharu ar y ddarpariaeth Gofal Dydd, sydd yn parhau ac o ganlyniad yn tanwario.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - trosiant staff a lleihad mewn gwariant yn lleihau effaith diffyg gwireddu arbedion o £518k.

**Cyllideb 2022/23** - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £3.4 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2022/23 gan gynnwys i'r maes Preswyl a Nyrsio, Anabledd Dysgu a Phobl Hŷn.

**Trosolwg Arbedion yr adran** - mae methiant i gyflawni arbedion yn ffactor amlwg yng ngorwariant yr adran gyda gwerth £921k o gynlluniau yn parhau heb eu gwireddu.

Mae'r adran wedi defnyddio eu holl gronfeydd wrth gefn gwerth £520k i leihau'r gorwariant a adroddir i £3.9 miliwn.

**Argymhellir** fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £3,785k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2023/24.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb 2022/23 | Sefyllfa 2022/23 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 784 | 679 | (105) | 0 | (105) | (7) |
| Gweithredol | 2,497 | 2,648 | 151 | 0 | 151 | 201 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 5,064 | 5,442 | 378 | 0 | 378 | (71) |
| Maethu Drwy Asiant | 1,696 | 1,522 | (174) | 0 | (174) | (89) |
| Maethu Mewnol | 2,613 | 2,252 | (361) | 0 | (361) | (299) |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,786 | 1,826 | 40 | 0 | 40 | 59 |
| | 11,159 | 11,042 | (117) | 0 | (117) | (400) |
| Ôl-16 | 1,366 | 1,402 | 36 | 0 | 36 | 41 |
| Arbenigol/Derwen | 2,235 | 2,715 | 480 | 0 | 480 | 431 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 256 | 217 | (39) | 0 | (39) | (38) |
| Blynyddoedd Cynnar | 139 | 57 | (82) | 0 | (82) | (2) |
| Ieuenctid | 812 | 680 | (132) | 0 | (132) | (189) |
| Eraill | 1,987 | 1,968 | (19) | 0 | (19) | (1) |
| Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran | 0 | (97) | (97) | 0 | (97) | 0 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **21,235** | **21,311** | **76** | **0** | **76** | **36** |

## Plant a Theuluoedd

**Rheolaeth Gwasanaeth -** derbyniad grantiau ychwanegol erbyn diwedd y flwyddyn ynghyd â grantiau yn cyllido gwariant craidd.

**Gweithredol** - pwysau ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ond ei effaith yn cael ei leihau gan nifer o gyfnodau mamolaeth.

**Lleoliadau -** nifer cyfartalog Lleoliadau All-Sirol eleni yn 25.7, sydd yn uwch na'r 23.3 ar gyfer 2021/22, gyda'r gost gyfartalog yn £211k yr achos. Y nifer cyfartalog yn Maethu drwy Asiant yn 31 ac yn gyson efo'r 31 yn 2021/22 ac yn tanwario £174k. Yn Maethu Mewnol, o ganlyniad i gynnydd yn y nifer o geiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid, derbyniad incwm gan y Swyddfa Gartref ar eu cyfer yn golygu bod tanwariant o (£361k).

**Ôl-16** - dau becyn dwys bellach wedi dod i ben a lleihad yn y pwysau a dwyster pecynnau eraill.

**Arbenigol/Derwen** – y tueddiad gorwariant cynyddol yn parhau o ganlyniad i gynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol. Newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda mwy o bwysau ar daliadau uniongyrchol yn amlwg bellach sydd yn gyfrifol am £90k o'r gorwariant.

**Cyfiawnder Ieuenctid** - trosiant staff yn golygu bod tanwariant ar y pennawd yma.

**Blynyddoedd Cynnar** - grantiau yn cyllido gwariant craidd ac incwm uwch yn Plas Pawb erbyn diwedd y flwyddyn.

**Ieuenctid** – derbyniad grant yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth. Y gwasanaeth newydd ar ei newydd wedd wrthi'n cael ei sefydlu ac felly y tanwariant yn lleihau.

Mae'r adran wedi defnyddio eu cronfa tanwariant o £97k yn llwyr i leihau'r gorwariant a adroddir.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Addysg** | Cyllideb 2022/23 | Sefyllfa 2022/23 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 85,951 | 85,951 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion Datganoledig - Costau Ychwanegol Chwyddiant Staff a Thrydan Uwchlaw'r Gyllideb | 0 | 1,304 | 1,304 | 0 | 1,304 | 1,645 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (1,610) | (1,671) | (61) | 0 | (61) | (38) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 6,017 | 6,568 | 551 | 0 | 551 | 482 |
| Gwasanaeth Atodol | 1,135 | 935 | (200) | 0 | (200) | 30 |
| Eraill | (418) | (456) | (38) | 0 | (38) | (167) |
| | 6,734 | 7,047 | 313 | 0 | 313 | 345 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,404 | 2,145 | (259) | 0 | (259) | (274) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 4,872 | 4,783 | (89) | 0 | (89) | 16 |
| Defnydd o falansau ysgolion | 0 | 0 | 0 | (1,304) | (1,304) | 0 |
| **Cyfanswm Addysg** | **98,351** | **99,559** | **1,208** | **(1,304)** | **(96)** | **1,645** |

## Addysg

**Ysgolion Datganoledig - Costau Ychwanegol Chwyddiant Staff a Thrydan uwchlaw'r gyllideb** - cost ychwanegol chwyddiant cyflogau cymorthyddion a staff gweinyddol £690k uwchlaw'r gyllideb eleni. Effaith prisiau trydan uwch yn £614k. O ystyried fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron i filiwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig, ystyrir ei bod felly yn briodol i ddefnyddio £1,304k balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol eleni.

**Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion** - cyfuniad o dderbyniad grant a chwtogi ar wariant.

**Cludiant** - gorwariant o £304k ar dacsis a threnau ysgolion er bod £146k o arian parhaol ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yn 2021/22 a £150k pellach yn 2022/23. Y pwysau cynyddol ar y gyllideb bysus ysgol hefyd yn parhau gyda £199k o orwariant.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, awgrymir fod yr angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - cynllun Llywodraeth Cymru i gyllido cinio am ddim i blant derbyn a Blwyddyn 1 o Fedi 2022 a Blwyddyn 2 o Ionawr 2023, yn golygu nad yw'r tueddiad diffyg incwm a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf ar ginio ysgol yn amlwg eleni. Cynnydd mewn prisiau bwyd, diffyg incwm a chostau staff uwch i'w gweld ar yr elfen gofal o'r clybiau brecwast. Ond derbyniadau grantiau a swyddi gwag yn gyfrifol am y tanwariant erbyn diwedd y flwyddyn.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - gwariant un-tro yn lleihau'r tanwariant ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol mewn paratoad at gynlluniau arbedion fydd yn weithredol o 2023/24 ymlaen, tra bod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £206k.

**Argymhellir** fod y Cabinet yn cymeradwyo bod £1,304k o gostau ychwanegol chwyddiant trydan a chyflogau cymorthyddion a staff gweinyddol yn yr ysgolion sydd uwchlaw lefel y gyllideb yn cael eu cyllido o falansau'r ysgolion unigol.

## CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYFRIFON TERFYNOL

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb 2022/23 | Sefyllfa 2022/23 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 380 | 372 | (8) | 0 | (8) | 0 |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 1,116 | 1,076 | (40) | 0 | (40) | (37) |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | (99) | (78) | 21 | 0 | 21 | (65) |
| Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill | 1,109 | 1,717 | 608 | 0 | 608 | 1,023 |
| Rhaglenni Datblygu Economaidd | 2 | 16 | 14 | 0 | 14 | 0 |
| Marchnata a Digwyddiadau | 487 | 490 | 3 | 0 | 3 | 5 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,506 | 1,429 | (77) | 0 | (77) | (23) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 774 | 835 | 61 | 0 | 61 | 59 |
| Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran | 0 | (32) | (32) | 0 | (32) | (123) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23 | 0 | 0 | 0 | (550) | (550) | 0 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **5,275** | **5,825** | **550** | **(550)** | **0** | **839** |

## Economi a Chymuned

**Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau** - tanwariant ar gostau staff ac ar amrywiol gyllidebau.

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - yn rhagori ar dargedau incwm yn y traethau a Hafan, Pwllheli yn dilyn tywydd ffafriol ac felly tymor prysur. Trosiant staff yn yr Harbyrau a Hafan, Pwllheli hefyd yn cynorthwyo'r sefyllfa. Costau cynyddol trydan a gwariant un-tro yn golygu fod gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn.

**Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. O ganlyniad i sgil effaith Covid, bu i Gwmni Byw'n Iach dderbyn cymorth ariannol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru oedd werth £1.4miliwn yn 2021/22 a £2.7 miliwn yn 2020/21. Nid yw cymorth o'r fath ar gael gan y Llywodraeth eleni. Ond, gan fod sgil effaith covid yn parhau yn 2022/23 ac yn amharu ar y gallu i gynhyrchu incwm, bu i'r Cyngor gadarnhau cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau Byw'n Iach drwy ymestyn y cyfnod o sicrwydd a roddwyd i'r Cwmni hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23. Gwerth y cymorth sydd ei angen yw £550k, sydd yn lleihad o'r amcan o £839k yn ystod y flwyddyn. Prisiau trydan £163k uwchlaw'r gyllideb ond fod cyllidebau eraill yn tanwario.

**Llyfrgelloedd Gwynedd** - swydd wag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb ond ei fod yn cael ei leihau gan orwariant o £23k ar drydan.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - diffyg incwm yn dilyn i Neuadd Dwyfor fod ar gau am chwarter olaf y flwyddyn ariannol.

Mae'r adran wedi defnyddio £32k o'u cronfa tanwariant i leihau'r gorwariant a adroddir.

**Argymhellir** i'r Cabinet gymeradwyo cymorth ariannol gwerth £550k i Gwmni Byw'n Iach.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | | Cyllideb 2022/23 | Sefyllfa 2022/23 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | | 10,390 | 11,344 | 954 | 0 | 954 | 15 |
| Gwasanaethau Peirianneg | | 400 | 517 | 117 | 0 | 117 | 115 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | Gwastraff | 11,767 | 13,177 | 1,410 | 0 | 1,410 | 1,220 |
| | Eraill | 5,232 | 5,658 | 426 | 0 | 426 | 390 |
| Defnydd o Gronfeydd wrth gefn | | 0 | (300) | (300) | 0 | (300) | 0 |
| Cyfraniad gan Adran Ymgynghoriaeth | | 0 | (73) | (73) | 0 | (73) | 0 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23 | | 0 | 0 | 0 | (2,434) | (2,434) | 0 |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **27,789** | **30,323** | **2,534** | **(2,434)** | **100** | **1,740** |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - gwariant un-tro a phwysau cynyddol ar y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ynghyd ag effaith oediad i wireddu cynlluniau arbedion.

**Gwasanaethau Peirianneg** - oediad i wireddu cynlluniau arbedion gan gynnwys arbedion teledu cylch cyfyng fydd bellach yn cyflawni yn ystod 2023/24 a methiant i wireddu arbedion Pont yr Aber.

**Gwastraff** - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd. Lefelau salwch a goramser hefyd yn broblemus, tra fod na gostau ychwanegol o ran hurio cerbydau. Gorwariant ar gostau trin defnyddiau ailgylchu ond yr incwm ar werthiant defnyddiau ailgylchu yn rhagori'r gyllideb. Lleihad mewn gwastraff gweddilliol yn golygu fod y costau cysylltiedig yn is. Costau trydan uwch a thrafferthion i wireddu arbedion yn y maes hefyd yn cyfrannu at lefel y gorwariant a adroddir.

Yn dilyn y tueddiad gorwariant cynyddol yn y maes gwastraff dros y blynyddoedd diwethaf, bu i adolygiad allanol gael ei gomisiynu gan WRAP Cymru. Mae'r adroddiad a'r argymhellion ar ffyrdd i wella'r gwasanaeth eisoes dan ystyriaeth gan yr adran gyda chamau i ymateb i'r sefyllfa i'w gweithredu yn y flwyddyn newydd.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gyda rhai o'r prif resymau yn cynnwys cynlluniau arbedion yn parhau heb eu darganfod a cholledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd, glanhau toiledau cyhoeddus, gwastraff masnachol ac hefyd prisiau cynyddol trydan. Incwm uwch gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Mae'r adran wedi defnyddio £300k o'u cronfeydd wrth gefn ac wedi trosglwyddo tanwariant yr Adran Ymgynghoriaeth er mwyn lleihau rhywfaint ar y gorwariant a adroddir.

**Argymhellir** fod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £2,434k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2023/24.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb 2022/23 | Sefyllfa 2022/23 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 788 | 846 | 58 | 0 | 58 | (6) |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 498 | 370 | (128) | 0 | (128) | (108) |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 85 | (295) | (380) | 0 | (380) | (411) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (2,222) | (1,888) | 334 | 0 | 334 | 172 |
| Cludiant Integredig | 1,806 | 2,181 | 375 | 0 | 375 | 379 |
| | (331) | (2) | 329 | 0 | 329 | 140 |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 768 | 767 | (1) | 0 | (1) | (6) |
| Gwarchod y Cyhoedd | 2,000 | 1,748 | (252) | 0 | (252) | (208) |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **3,723** | **3,729** | **6** | **0** | **6** | **(188)** |

## Amgylchedd

**Rheolaeth yr Adran** - gwariant un-tro a lleihad mewn incwm.

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu** - nifer o ffactorau gan gynnwys cynnydd mewn incwm Rheolaeth Adeiladu, gwelliant pellach i incwm Cynllunio yn dilyn i geisiadau cynllunio sylweddol gael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn, ond diffyg incwm Pridiannau Tir. Tanwariant ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol, gwasanaethau proffesiynol ac apeliadau.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**
**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)** - yn rhagori ymhellach ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio** - diffyg incwm parcio wedi cynnyddu i £395k sydd yn cael eu lleihau gan danwariant ar gyllidebau eraill.

**Cludiant Integredig** - gorwariant o £487k ar gytundebau bysus cyhoeddus, ond incwm uwch a thanwariant amrywiol yn lleihau'r gorwariant a adroddir. Awgrymir y dylid parhau efo'r adolygiad i'r ddarpariaeth Cludiant yn dilyn oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

**Gwarchod y Cyhoedd** - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys samplau bwyd a dŵr, gwasanaethau a chyflenwadau.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb 2022/23 | Sefyllfa 2022/23 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (166) | (200) | (34) | 0 | (34) | (72) |
| Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS) | 22 | 22 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd | 463 | 443 | (20) | 0 | (20) | 0 |
| Gwasanaeth Adeiladu | (117) | (136) | (19) | 0 | (19) | 3 |
| Cyfraniad Tuag at Orwariant Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 0 | 73 | 73 | 0 | 73 | 0 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **202** | **202** | **0** | **0** | **0** | **(69)** |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - swyddi gwag a rhagori ar incwm gan sefydliadau allanol megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru. Costau ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn yn lleihau'r tanwariant a adroddir.

**Uned Rheoli Risg Llifogydd** - derbyniad grantiau ychwanegol sydd wedi cyllido gwariant craidd ar ddiwedd y flwyddyn.

**Gwasanaeth Adeiladu** - swyddi gwag a throsiant staff yn parhau, ond sydd heb amharu gymaint ar dderbyniadau incwm i'r hyn a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn.

Gan fod yr Adrannau Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymynghoriaeth bellach wedi uno i greu Adran newydd Priffyrdd, Peirianneg a YGC, trosglwyddir tanwariant yr Adran Ymgynghoriaeth er mwyn cynorthwyo sefyllfa'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer 2022/23.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Cyllideb 2022/23 | Sefyllfa 2022/23 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 277 | 245 | (32) | 0 | (32) | (29) |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 3,915 | 6,669 | 2,754 | 0 | 2,754 | 2,874 |
| Tai Sector Breifat | 461 | 415 | (46) | 0 | (46) | (67) |
| Eraill | 447 | 210 | (237) | 0 | (237) | (123) |
| | 4,823 | 7,294 | 2,471 | 0 | 2,471 | 2,684 |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 2,007 | 2,056 | 49 | 0 | 49 | 63 |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 5 | (1) | (6) | 0 | (6) | 10 |
| | 2,012 | 2,055 | 43 | 0 | 43 | 73 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23 | 0 | 0 | 0 | (2,482) | (2,482) | 0 |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **7,112** | **9,594** | **2,482** | **(2,482)** | **0** | **2,728** |

## Tai ac Eiddo

| |
|---|
| **Gwasanaethau Tai, Digartrefedd -** y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn Nigartrefedd yn parhau i fod yn ddwys. Yn ystod 2021/22 bu i Lywodraeth Cymru ein digolledu am £2.9 miliwn o'r gwariant ychwanegol perthnasol o £3.3 miliwn o gronfa caledi Covid. Ond, eleni dim ond £475k yw gwerth y grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y gost. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd pellach yn y galw, ynghyd â chostau cyfartalog uwch gan fod argaeledd llety dros dro yn y sir wedi cyrraedd ei gapasiti. Mae'r gorwariant net o £2.8m a adroddir ar Ddigartrefedd yn dilyn dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau adfer yn sgil covid y Cyngor i'r gwasanaeth.<br><br>**Gwasanaethau Tai, Tai Sector Breifat ac Eraill -** tanwariant ar gostau staff ac ar nifer o benawdau'r gyllideb.<br><br>**Gwasanaethau Eiddo -** cynnydd mewn costau cerbydau Difa Pla a gwariant un-tro uwchlaw lefel y gyllideb yn Eiddo. Yn y maes Gofalu, Arlwyo a Glanhau cyfuniad o ddiffyg incwm a mwy o danwariant ar gyllidebau amrywiol. |
| Gofynnir i'r Cabinet nodi bod gorwariant yr Adran Tai ac Eiddo o ganlyniad i newid i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Digartrefedd, gyda'r oblygiadau yn golygu gorwariant net o £2.5 miliwn eleni gan yr Adran Tai ac Eiddo. **Argymhellir** fod y Gronfa Premiwm Treth Cyngor yn cael ei ddefnyddio i gwrdd â'r gorwariant eleni. |

| **CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYFRIFON TERFYNOL** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adrannau Canolog** | Cyllideb 2022/23 | Sefyllfa 2022/23 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2022/23 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,276 | 2,259 | (17) | 0 | (17) | (18) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 7,406 | 7,396 | (10) | 0 | (10) | (14) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,115 | 8,099 | (16) | 0 | (16) | (19) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **17,797** | **17,754** | **(43)** | **0** | **(43)** | **(51)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - effaith swyddi gwag y ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol am ran o'r flwyddyn, yng Nghyfreithiol defnydd cynyddol o gyfreithwyr asiantaeth o ganlyniad i drosiant staff a swyddi gwag. Gwelwyd hefyd gynnydd yng nghostau'r Crwner yn ystod y flwyddyn.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant gan gynnwys tanwariant ar swyddi gwag, incwm am weinyddu grantiau amrywiol a derbyniad incwm uwch mewn nifer o feysydd. Costau bancio yn gorwario wrth i fwy o daliadau gan gwsmeriaid gael eu gwneud trwy ddefnyddio cardiau ac felly'r ffioedd banc cysylltiedig yn daladwy gan y Cyngor.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - tanwariant ar drosiant staff ac ar nifer o benawdau'r ar draws yr adran gan gynnwys ar deithio aelodau. Pwysau cynyddol ar y gyllideb cwnsela a ffisiotherapi yn amlwg yn ystod y flwyddyn. Er y rhagwelwyd diffyg incwm gan yr Argraffdy o £67k yn yr Adolygiad diwedd Tachwedd, yn dilyn derbyniad rhagor o incwm, y diffyg wedi lleihau i £28k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb 2022/23 | Sefyllfa 2022/23 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23** | Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (1,061) | 1,061 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (563) | 563 | 0 | 0 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (513) | 513 | 0 | (310) |
| Ariannu Cynlluniau Cyfalaf | | | (3,899) | 3,899 | 0 | 0 |
| Derbyniad Llog | * | * | (1,252) | 1,252 | 0 | (1,292) |
| Cyllidebau a Bidiau a Ddychwelwyd | * | * | (329) | 329 | 0 | (179) |
| Pwysau Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb | * | * | 1,305 | (1,305) | 0 | 1,315 |
| Darpariaeth Arbedion | * | * | (1,200) | 1,200 | 0 | (1,200) |
| Gofynion Sgil Effaith Ariannol Covid | * | * | 1,076 | (1,076) | 0 | 467 |
| Eraill | * | * | (1,266) | 1,266 | 0 | (281) |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(7,702)** | **7,702** | **0** | **(1,480)** |

## Corfforaethol

**Treth Cyngor** - y tueddiad o gynnyrch treth ychwanegol yn parhau gan fod newid deddfwriaethol yn golygu fod mwy o dai yn destun treth cyngor gan nad ydynt yn gymwys ar gyfer trethi annomestig, ynghyd â rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23. Er hyn, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 452 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (469 yn 2021/22, 506 yn 2020/21, 397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Mae £6m o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai yn 2022/23.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - gosod amcangyfrifon darbodus a lleihad pellach yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, sydd yn cyd-fynd â'r tueddiad cyffredinol ar draws Cymru.

**Costau Cyfalaf** - cyfuniad o ffactorau yn creu'r tanwariant gan gynnwys derbyniad incwm un-tro ynghyd ag effaith y polisi rheolaeth trysorlys presennol sydd wedi golygu y bu modd osgoi benthyca yn allanol, felly yn osgoi costau cysylltiedig.

**Ariannu Cynlluniau Cyfalaf** - o ganlyniad i dderbyniad grantiau niferus i gyllido cyfalaf ynghyd â llithriadau ar gynlluniau cyfalaf, golyga hyn fod angen disodli'r arian gwreiddiol a fwriadwyd drwy drosglwyddo £3,899k o arian refeniw i gronfa er mwyn ariannu'r rhaglen gyfalaf yn 2023/24.

**Derbyniad Llog** - y cynnydd mewn cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn yn golygu fod y rhagolygon derbyniad llog yn rhagori'r gyllideb ddisgwyliedig.

**Pwysau Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb** - yn dilyn cadarnhad yn genedlaethol ar y cynnydd i gyflogau gweithwyr Llywodraeth Leol yn ystod yr Hydref, gellir cadarnhau fod gwerth y cynnydd yn £1.3m uwchlaw'r gyllideb, sydd yn sylweddol uwch na'r chwyddiant o 4% a gynghorwyd i Gynghorau ei gyllidebu wrth sefydlu'r gyllideb am 2022/23 a ystyriwyd i fod yn ddarbodus ar y pryd.

**Darpariaeth Arbedion** - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud i'r pwrpas sydd ar gael i'w ddyrannu yn briodol.

**Gofynion Sgil Effaith Ariannol Covid** - y gofyn uwchlaw £1.4m a ddarparwyd yn y gyllideb am Covid yn £1,090k.

**Eraill -** y pwysau ar rai cyllidebau ddim cymaint a'r hyn a ddarparwyd.

**Argymhellir** y dylid cynorthwyo'r Adrannau sydd yn gorwario yn 2022/23 gan eu cyllido o'r ffynonellau canlynol:

**Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Byw'n Iach - Adran Economi a Chymuned**
- £2,851k o danwariant net ar gyllidebau Corfforaethol
- £3,918k yn dilyn yr ymarferiad cynaeafu cronfeydd a fanylir yn **Atodiad 3**

**Adran Addysg a'r Adran Tai ac Eiddo**
- defnyddio £1,304k Balansau Ysgolion i gyllido costau ychwanegol chwyddiant trydan a chyflogau cymhorthyddion a staff gweinyddol sydd uwchlaw lefel y gyllideb yn yr ysgolion
- defnyddio £2,482 o Gronfa Premiwm Treth Cyngor i gyllido’r pwysau ychwanegol yn y maes Digartrefedd

- fod (£3,899k) cynlluniau cyfalaf sydd i'w hariannu o refeniw i'w trosglwyddo i gronfa i alluogi ailbroffilio'r adnodd
- gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol o (£952k) yn cael ei neilltuo i'r Gronfa Trawsffurfio i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor.